# Cynhadledd Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol

**10 Hydref 2024** **Ar-lein**

cymorth cymru
connect • strengthen • influence

## Rhaglen

| | |
|---|---|
| **9:30-10:30** | **Dysgu o Brofiad Bywyd: Cymorth o'r Galon**<br>• Oliver Townsend, Platfform<br>• Sabiha Azad, Cyngor Ffoaduriaid Cymru<br>Pleser o'r mwyaf yw agor ein cynhadledd gyda ffocws ar wrando a dysgu wedi'i gyflwyno gan bobl a chanddynt brofiad o wasanaethau defnyddio sylweddau, a gwasanaethau chwilio am loches, yng Nghymru. Yn y sesiwn hon ceir trosolwg o'r adroddiad 'Cymorth o'r Galon', a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n archwilio sut i greu'r amgylchiadau ar gyfer cymorth perthynol. |
| **11:00-12:00** | **Comisiynu Trugarog: Adeiladu Cynghrair sy'n Ystyriol o Drawma yng Nghanolbarth Lloegr**<br>• Lucy Cavell, Barnardo's / West Midlands Trauma Informed Coalition<br>Gwyddom fod comisiynu'n gallu chwarae rhan holl bwysig yn y gwaith o alluogi cyflenwi gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma. Rydym wrth ein bodd yn croesawu Lucy Cavell o'r West Midlands Trauma Informed Coalition, sydd yn ddiweddar wedi datblygu Arweiniad i Gomisiynu sy'n Ystyriol o Drawma i gefnogi pobl sy'n gyfrifol am gomisiynu a chynllunio strategol wrth iddynt ystyried sut i gyflenwi'r deilliannau gorau posibl. |
| **12:30-13:15** | **Hope Street: System Dai sy'n Ystyriol o Drawma ar gyfer Menywod sy'n Gadael y System Cyfiawnder**<br>• Esther Sample a Fionnuala Gordon, One Small Thing<br>Nod yr elusen One Small Thing yw ailgynllunio'r system cyfiawnder i gydnabod, deall ac ymateb i drawma, gan helpu menywod a'u plant i adfer eu nerth a ffynnu. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at glywed am eu gwaith rhagorol, yn cynnwys Hope Street, sef cymuned breswyl arloesol ar gyfer menywod a phlant. |
| **14:00-15:00** | **Newid y Lens: Dulliau Anfeddygyniaethol mewn Iechyd Meddwl**<br>• Keir Harding a Hollie Berrigan, Beam Consultancy<br>Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gwelwyd mwy o drafod ynghylch meddygyniaethu gwewyr, a sut y gall labeli a diagnosau megis Anhwylder Ffiniol Personoliaeth arwain at warthnodi, a rhwystro pobl a chanddynt drawma cymhleth rhag cael y cymorth mae arnynt ei angen. Yn ein sesiwn olaf am y dydd rydym yn falch iawn o glywed oddi wrth Keir a Hollie, a fydd yn rhannu eu harbenigedd proffesiynol a'u profiad bywyd ar y mater hwn. |

#PIE24

